LEG-06-2002(min)

**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION:**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 26 Chwefror 2002 |
| **Amser:** | 9:30 a.m. |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Christine Chapman | (Llafur) |
| Ron Davies | (Llafur) |
| Pauline Jarman | (Plaid Cymru) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Huw Lewis | (Llafur) |
| Tom Middlehurst | (Llafur) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Simon Thwaite | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Mick Bates, Glyn Davies.

**Eitem 1: Ethol Cadeirydd Dros Dro**

1.1 Etholwyd Dr Dai Lloyd fel cadeirydd yn ystod absenoldeb Mick Bates.

**Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi: LEG-05-2002(min**)

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2002.

**Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd**

3.1 Rhoddwyd dau adroddiad a argraffwyd i aelodau'r Pwyllgor, sef yr Adroddiad gan Gadeirydd y Gynhadledd Ryngwladol ar Ddiwygio Rheoliadau, Rheoli a Chraffu ar Ddeddfwriaeth ac Ail Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Deddfau.

3.2 Diolchodd y Pwyllgor i Olga Lewis a John Turnbull am eu holl waith caled a'u hymdrech wrth gynhyrchu'r adroddiadau uchod.

3.3 Mynegodd y Pwyllgor y dymuniad i gael eu hysbysu ynglŷn â'r rheswm dros ddewis gweithdrefnau penodol ar gyfer Offerynnau Statudol. Penderfynwyd y byddai'r clerc yn cysylltu â'r Rheolwr Busnes i'w hysbysu y byddai'r Pwyllgor yn dymuno cael y wybodaeth hon yn y dyfodol.
**Gweithredu: Clerc**

3.4 Atgoffwyd yr Aelodau am y Seminar Drafftio Deddfwriaeth ar y Cyd a fyddai'n cael ei gynnal ar 27/2/02 am 12.45pm yn Ystafell Gynhadledd A.

3.5 Hysbyswyd y Pwyllgor y byddai dirprwy o Bwyllgor Sefydlog Cynulliad Deddfwriaethol Ontario yn bresennol yn y cyfarfod nesaf ar y 5ed o Fawrth. Mae ganddynt ddiddordeb yng ngwaith y pwyllgor deddfau a gofynasant a fyddai'n bosibl gosod eu hymweliad ar yr agenda er mwyn iddynt allu cymryd rôl weithredol yn y cyfarfod.

3.6 Awgrymwyd y dylai ein Pwyllgor ni a Phwyllgor Sefydlog Cynulliad Deddfwriaethol Ontario ddarparu cyflwyniadau byr a fyddai'n darparu gwybodaeth i bob aelod ac yn ychwanegu strwythur i gyfraniad dirprwy Canada yn y cyfarfod. Cytunwyd y byddai John Turnbull yn rhoi cyflwyniad ar ran y Pwyllgor Deddfau ac o'u rhan hwy, byddent yn gofyn i ddirprwy Canada roi cyflwyniad byr.
Gweithredu: **Ymgynghorydd Cyfreithiol/Clerc**

**Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**
**LC425 – Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2002**
4.1 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Safonol.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol mewn perthynas â phwyntiau, y byddai rai ohonynt yn cael eu cywiro cyn eu hargraffu ac eraill drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau. Yn ogystal, nododd y Pwyllgor bod y Gweinidog yn dymuno gwneud cywiriad drafft yn eitem 10.12 Atodlen 10. Byddai hyn yn newid "strategaeth" i "polisi". Cadarnhawyd y byddai hwn yn fater priodol ar gyfer y Memorandwm Cywiriadau.

4.3 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC425 (Adroddiad).

**LC426 – Gorchymyn Diddymu Pwyllgor Ymgynghorol dros Gymru (Asiantaeth yr Amgylchedd) 2002**

4.4 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i’r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Gyflym.

4.5 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag nodwyd dau fater teipograffyddol y byddai angen eu cywiro cyn gwneud y gorchymyn. Yn ogystal, gwnaeth y Pwyllgor rai sylwadau cyffredinol yr oedd o’r farn y dylid eu cofnodi yn eu hadroddiad.

4.6 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC426 (Adroddiad).

**LC427 – Gorchymyn Deddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000 (Cychwyn) (Cymru) 2002**

4.7 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i’r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Gyflym.

4.8 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

4.9 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC427 (Adroddiad).

**LC428 – Gorchymyn Gwerth Gorau Llywodraeth Leol (hepgor Ystyriaethau Anfasnachol ) (Cymru) 2002**

4.10 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i’r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Gyflym.

4.11 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o bwyntiau a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

4.12 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC428 (Adroddiad).

**LC429 – Rheoliadau Strwythurau Pysgodfeydd a Dyframaethu (Grantiau) (Cymru) 2002**

4.13 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i’r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflym.

4.14 Yn rheoliad 15(4) mae’r ddarpariaeth sy’n ymwneud â thaliadau llog yn cyfeirio at log “cyfrifedig a rhag-ddywededig”. Ond ni cheir darpariaeth “rhag-ddywededig” i nodi sut y bydd y llog yn cael ei gyfrifo. Deallwyd mai’r bwriad oedd cyfeirio at y cyfrifiad yn rheoliad 16.

4.15 Ymddengys felly bod angen i’r ddarpariaeth ar gyfer talu llog a geir ar hyn o bryd yn rheoliad 15(4) nodi’r gyfradd ar gyfer cyfrifo’r llog a dylid ei fynegi fel eithriad i’r ddarpariaeth ar gyfer cyfrifo llog o’r dyddiad y talwyd y cymorth ariannol. At y diben hwn, awgrymir y byddai’r ddarpariaeth hon yn fwy priodol yn rheoliad 16. Cytunwyd, oherwydd bod hwn yn fân wall drafftio y dylid ei ddiwygio o dan Reol Sefydlog 22.13 drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau. Byddai adroddiad y Pwyllgor yn nodi, pe na bai’r gwall yn cael ei gywiro, y byddai hwn yn rhywbeth y byddai angen i’r Cynulliad roi sylw arbennig iddo.

4.16 Gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol yr oedd o’r farn y dylid eu cofnodi yn yr adroddiad.

4.17 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC429 (Adroddiad).

**LC430 – Rheoliadau Diwygio Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cymunedol ar gyfer Monitro â Lloeren) (Cymru) 2002**

4.18 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i’r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflym.

4.19 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor rai sylwadau cyffredinol yr oedd o’r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

4.20 Atodir adroddiad y pwyllgor i’r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC430 (Adroddiad).

**LC431 – Gorchymyn Cimychiaid a Chimychiaid Cochion (Gwahardd eu Pysgota a’u Glanio) (Cymru) 2002**

4.21 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i’r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Gyflym.

4.22 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o bwyntiau a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

4.23 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC431 (Adroddiad).

**LC432 – Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 2002**

4.24 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Gyflym.

4.25 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor un sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad.

4.26 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC432 (Adroddiad).

**LC418 – Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002**

4.27 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

4.28 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor rai sylwadau cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

4.29 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC418 (Adroddiad).

**LC419 – Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002**

4.30 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

4.31 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

4.32 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC419 (Adroddiad).

**LC420 – Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002**

4.33 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

4.34 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor rai sylwadau cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

4.35 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC420 (Adroddiad).

**LC421 – Rheoliadau Gwartheg (Adnabod Anifeiliaid Hŷn) (Cymru) (Diwygio) 2002**

4.36 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

4.37 Mae Rheoliad 2 felly yn cyfeirio at roi'r gair "tri" yn lle'r gair "saith" yn rheoliad 7(2) (e). Yn rheoliadau 2000 a gyhoeddwyd gan y Llyfrfa, fodd bynnag, mae "7" yn ymddangos yn y testun Saesneg (ond nid yn y testun Cymraeg) fel ffigwr yn hytrach na gair.

4.38 Cytunodd y Pwyllgor y dylid cyfeirio sylw'r Cynulliad at y gwall drafftio hwn er mwyn iddo gael ei gywiro yn y fersiwn argraffedig.

4.39 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC421 (Adroddiad).

**LC422 – Rheoliadau'r Gronfa Ddata Gwartheg (Diwygio) (Cymru) 2002**

4.40 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

4.41 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

4.42 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC422 (Adroddiad).

**LC423 – Rheoliadau Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002**

4.43 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

4.44 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

4.45 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC423 (Adroddiad).

**LC424 - Rheoliadau Bwyd a Phorthiant Anifeiliaid (Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid o China) (Rheoli) (Cymru) 2002**

4.46 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

4.47 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

4.48 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC424 (Adroddiad).

**Eitem 5: Gohebiaeth y Pwyllgor**
**Llythyr oddi wrth Carwyn Jones AC, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, dyddiedig 5 Chwefror 2002**
**LC358 – Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Rhif 10) 2001**

5. 1 Datganodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn ymateb i'r llythyr dyddiedig 6 Tachwedd 2001 at Carwyn Jones AC, y Gweinidog dros Faterion Gwledig ar **Reoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Rhif 10) 2001.** Ystyriodd y Pwyllgor fod y Rheoliadau yn adroddadwy o dan Reol Sefydlog 11.5 am eu bod yn cynnwys drafftio a oedd yn ddiffygiol ym marn y pwyllgor.

5.2 Yn y geiriau agoriadol, mae Rheoliad 5(3)(d) yn cyfeirio at "yr ardaloedd a restrir yn yr Atodlen" ac yna'n cyfeirio yn is-baragraff (i) at "y grŵp o siroedd a restrir yn yr Atodlen". Gofynnwyd i'r Gweinidog, o ystyried y ffaith mai "siroedd", yn ôl pob tebyg, yw'r ardaloedd a enwir yng ngholofn chwith yr Atodlen, beth a olygir gan " y grŵp o siroedd"? Cwestiwn arall a ofynnwyd i'r Gweinidog oedd, os bwriedir i'r "grŵp o siroedd" gyfeirio at yr ardaloedd a enwir yn y golofn chwith, ai effaith fwriadedig Rheoliad 5(3)(d)(i) yw gwahardd achosion o ddifa, dim ond mewn achosion lle y digwyddodd yr argyfwng o fewn yr ardaloedd arbennig yn y golofn chwith lle y magwyd yr anifail?

5.3 Mewn ymateb dywedodd y Gweinidog fod y geiriad ar y cam hwn yn dilyn drafft a dderbyniwyd gan DEFRA yn seiliedig ar Benderfyniad y Comisiwn ac y paratowyd drafftiau DEFRA a'u drafftiau hwy ar fyr rybudd er mwyn iddynt ddod i rym cyn gynted â phosibl. Yn dilyn hyn, dywedodd y gweinidog yr aethpwyd i'r afael â'r mater ac eglurwyd y sefyllfa yn Rheoliadau Rhif 11.

5.4 Drafftiwyd Rheoliad 27(2) ar yr amod bod paragraffau (1A) a (1B) o Reoliad 7 Rheoliadau Briwgig a Pharatoadau Cig (Hylendid) 1995 yn dal yn weithredol. Noda Butterworths Direct, fodd bynnag, y diddymwyd y paragraffau hynny mewn perthynas â Chymru gan Reol Sefydlog 2001/1802 yn weithredol o 9 Mai 2001. Gofynnwyd i'r Gweinidog felly a oedd Rheoliad 27(2) yn

anghywir wrth gyfeirio at baragraffau (1A) ac (1B)? Mae'r un pwynt â'r un uchod yn codi mewn perthynas â'r cyfeiriad ym mharagraffau (4A) a (4B) yn Rheoliad 27(4).

5.5 Atebodd y Gweinidog 'ydy' i'r ddau bwynt. Dywedodd y Gweinidog, fel y nodwyd yn llythyr y Pwyllgor mewn perthynas â'r ddau ohonynt, roedd y paragraffau blaenorol eisoes wedi cael eu diwygio felly nid oedd gan yr ail ddiddymiad honedig unrhyw effaith yr oedd angen ei chywiro. Dywedodd y Gweinidog ymhellach y cafodd y Rheoliadau eu diddymu yn fuan ar ôl hynny gan Reoliadau Rhif 11.

5.6 Nodwyd mân bwynt teipograffyddol, sef ymddengys y dylai'r cyfeiriad ochr ym mhennawd yr Atodlen gyfeirio at Reoliad 5 yn hytrach na Rheoliad 4.

5.7 Ar ôl ystyried y sylwadau a wnaethpwyd gan y Gweinidog cydnabu'r Pwyllgor y cywirwyd y pwyntiau, i bob pwrpas, drwy lunio rheoliadau newydd Rhif 11. **Fodd bynnag, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ffurfiol i'r Cynulliad ynglŷn â'r ffaith y dylai roi sylw arbennig i'r rheoliadau hyn am eu bod yn cynnwys gwallau drafftio.**

**Llythyrau oddi wrth Carwyn Jones AC, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, dyddiedig 5 Chwefror 2002**
**LC361 – Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) Rhif 10) (Ffioedd) 2001**
**LC370 - Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Rhif 11) 2001 (Rhif 3589, W.293)**

5.8 Dywedodd y Cadeirydd iddo dderbyn ymateb i'r llythyr dyddiedig 13 a 20 Tachwedd 2001 at Carwyn Jones AC, y Gweinidog dros Faterion Gwledig ar **Reoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Rhif 10) (Ffioedd) 2001** a **Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Rhif 11) 2001 (Rhif 3589, W.293).** Ystyriodd y pwyllgor fod y Rheoliadau yn adroddadwy o dan Reol Sefydlog 11.5 am eu bod yn cynnwys drafftio a oedd yn ddiffygiol ym marn y Pwyllgor.

5.9 Mae Rheoliad 2 yn cyfeirio at ddifa "cynnyrch" o dan Reoliadau Rhif 10. Gofynnwyd i'r Gweinidog a fwriadwyd cyfyngu'r broses o godi tâl i oruchwyliaeth ac archwiliad mewn perthynas ag eitemau a nodwyd yn Rheoliadau Rhif 10 fel "cynnyrch" neu a fwriedir sicrhau bod y broses o godi tâl ar gael yn fwy eang?

5.10 Mewn ymateb dywedodd y Gweinidog mai'r bwriad oedd y dylai gwmpasu popeth lle y mae'n ofynnol i sicrhau bod rhywbeth yn gymwys i gael ei ddifa.

5.11 O ran y sylw a wnaethpwyd gan y Gweinidog dywedodd y Pwyllgor y bwriadwyd gosod proses o godi tâl yn fwy eang na'r hyn a ddehonglir o'r defnydd o'r gair "cynnyrch" yn rheoliad 2. **O ganlyniad, mae angen i'r Pwyllgor dynnu sylw'r Cynulliad at y ffaith bod y rheoliadau wedi cael eu drafftio'n anghywir yn hyn o beth.**

5.12 Awdurdodir proses o godi tâl lle – "cyflawnir gwaith goruchwylio neu archwilio at y diben o nodi cymhwyster ar gyfer difa". Gofynnwyd i'r Gweinidog a fwriadwyd i hyn olygu mai dim ond lle y bydd y person sy'n bwriadu difa cynnyrch wedi trefnu unrhyw oruchwyliaeth neu archwiliad angenrheidiol y gellir caniatáu proses o godi tâl, neu a fydd hawl codi tâl lle y cynhelir archwiliad yn ôl penderfyniad yr awdurdod sy'n archwilio at y diben o gadarnhau a gafwyd achos o dorri'r rheoliadau?

5.13 Atebodd y Gweinidog mai'r dewis cyntaf yw'r dehongliad cywir a chadarnhawyd hyn mewn deddfwriaeth ddilynol.

5.14 Ar ôl ystyried y sylwadau a wnaethpwyd gan y Gweinidog derbyniodd y Pwyllgor, o ystyried yr elfen o ansicrwydd a oedd yn bodoli, y byddai'r llysoedd yn defnyddio'r dehongliad mwyaf cyfyng. **Ar y sail hwn, pwysleisiodd y Pwyllgor i'r Cynulliad y ffaith bod y ddarpariaeth hon wedi gofyn am yr eglurhad pellach a gafwyd yn awr gan y Gweinidog.**

5.15 Gwnaeth y Pwyllgor un sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid ei gofnodi yn eu hadroddiadau.

**Eitem 6: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

6.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 5 Mawrth 2002.